Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Penodi 3 Chyfarwyddwr Anweithredol

Dyddiad cau:13 Medi 2019

Cynnwys **Tudalen**

Gwneud cais **3**

Atodiad A : Rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol **6**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a rôl yr Aelod o'r Bwrdd **10**

Atodiad C : Y broses ddethol **12**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb ym mhenodiad tri o Gyfarwyddwyr Anweithredol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bydd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y tîm gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-25546c74a314/candidate/register

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Cyfarwyddwr Anweithredol (3 swydd) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a manyleb y person. Mae hefyd yn gofyn ichi ddarparu atebion, a rhoi tystiolaeth o'r cymwyseddau a chanlyniadau, i'r cwestiynau a restrir isod. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, dylech geisio darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych chi'n bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer y rôl yr ydych yn ymgeisio amdani, tystiolaeth o'ch dealltwriaeth o faterion iechyd a thystiolaeth hefyd sy'n ateb y cwestiynau eraill a restrir isod o ran eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba gwestiwn isod a restrir isod. Mae'n arfer cyffredin i ddarparu paragraffau ar wahân i ateb bob cwestiwn gyda theitl y cwestiwn yr ydych yn ei ateb uwchben pob paragraff.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

Rhowch grynodeb o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Anweithredol yr ydych yn ymgeisio amdani fel yr amlinellir ar dudalen 8.

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol pan oedd rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch ddwyn person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef.

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau lle'r ydych wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid a rhanddeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

Curriculum Vitae (CV)

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Sgiliau Cymraeg

Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer unrhyw rai o'r swyddi hyn. Er hynny, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu yn arbennig geisiadau gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os bydd yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swyddi.

Amserlen fras

Dyddiad cau:13 Medi 2019

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Creu rhestr fer:	w/d 16 Medi 2019
Cynnal cyfweliadau:	3 Hydref 2019
Dyddiad cychwyn:	Cyn gynted â phosibl. Mae'r swyddi'n wag ar hyn o bryd Er hynny, mae'n bosibl y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am gyfnod trosglwyddo / cysgodi. Felly, efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau **cyn hynny** os bydd yn gymwys. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cadarnhad ynghylch hyn pan fydd ei benodiad yn cael ei gadarnhau.

Ffeithiau allweddol am y swyddi

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd unwaith y mis mewn amrywiol leoliadau. Mae ymrwymiadau eraill yn cynnwys cyfarfodydd Pwyllgor y Bwrdd, sy'n cyfarfod yn chwarterol, a chyfarfodydd a digwyddiadau eraill ledled Cymru.

Cydnabyddiaeth ariannol: £9,360 y flwyddyn

Lle caniateir i'r Aelod o'r Bwrdd gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i fynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol.

Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Ymrwymiad Amser:	Mae swydd Cyfarwyddwr Anweithredol yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 4 (bedwar) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:
E-bost y Tîm Penodiadau Cyhoeddus PublicAppointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol, cysylltwch â Martin Woodford, Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. E-bost: Martin.Woodford@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gallwch fynd i'w gwefan: http://www.ambulance.wales.nhs.uk/.

Anogir ymgeiswyr posibl hefyd i ddysgu mwy am Wasanaeth Ambiwlans Cymru trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Ymddiriedolaeth. Byddant yn cynnig y cyfle i chi ddod i un o'u gorsafoedd ambiwlans neu fangre arall, mewn lle sy'n lleol ichi lle bo modd, i gyfarfod ag aelodau'r Bwrdd a staff allweddol eraill. Dylai ymgeiswyr cysylltu â naill ai Martin.Woodford@wales.nhs.uk neu keith.cox@wales.nhs.uk

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 616095, neu e-bost: publicappointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Atodiad A

Rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ein gweledigaeth o gyflawni "Cymru iachach, hapusach a thecach".

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Cyfarwyddwyr Anweithredol ymysg pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei rheoli, yn glinigol ac yn gorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol.
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda chyrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau.
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn.
- Gallu cyfrannu at brosesau 'llywodraethu ac ariannu' yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau ei bod yn agored ac yn onest yn ei gwaith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person

Mae'n **hanfodol** bod Cyfarwyddwyr Anweithredol yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Deall problemau a blaenoriaethau iechyd mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd;
- Y gallu i ddwyn yr aelodau gweithredol i gyfrif am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion o ran llywodraethu gwybodaeth y mae eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth, ee Y Ddeddf Diogelu Data.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diffinio set o werthoedd craidd cyffredin. Bydd angen ichi ddangos eich ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn fel y dangosir yn y diagram isod:-

---

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer cael eich penodi.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol, fel penodiadau cyhoeddus, yn chwarae rôl hanfodol yn llywodraethiant yr Ymddiriedolaeth, nid yn unig trwy gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ond hefyd trwy ddarparu gwasanaeth craffu, her a sicrwydd annibynnol a dod â safbwynt cyhoeddus i'r Bwrdd. Mae'r cyfraniad y gall Cyfarwyddwyr Anweithredol ei wneud at yr Ymddiriedolaeth trwy dynnu ar eu profiadau eu hunain yn arbennig o werthfawr. Gallai hyn gynnwys y profiad o fod yn anabl, yn berson du a / neu o leiafrifoedd ethnig, o fyw mewn cymuned leol neu'r heriau sy'n cael eu hwynebu bob dydd gan ein dinasyddion.

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn chwilio am rai sgiliau penodol dros y tri phenodiad, mae yr un mor bwysig bod aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir ganddo. Mae'r Ymddiriedolaeth felly'n awyddus i ddenu ymgeiswyr o ystod amrywiol ac eang o gefndiroedd o bob rhan o Gymru a fyddai'n ychwanegu gwerth at y Bwrdd.

Ar gyfer un o'r penodiadau, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am rywun sy'n gallu defnyddio Gwybodaeth a Sgiliau ariannol ac sy'n gallu arfer goruchwyliaeth ariannol

mewn sefydliad sy'n perfformio'n dda (byddai aelodaeth o gorff cyfrifyddiaeth siartredig o fudd).

Er nad ydynt yn hanfodol, mae sgiliau a phrofiad a geisir i gryfhau'r Bwrdd yn cynnwys y gweithlu ac Adnoddau Dynol a phrofiad ehangach o weithio y tu allan i'r GIG, yn enwedig os bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth neu ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae profiad blaenorol ar fwrdd yn ddymunol ond nid yn hanfodol gan y cydnabyddir bod profiadau bywyd yr un mor bwysig.

Ymrwymiad amser

Mae swydd Cyfarwyddwr Anweithredol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, a disgwylir iddo fod yn fwy yn aml na'r isafswm gofynnol.

Cydnabyddiaeth ariannol

£9,360 y flwyddyn. Lle caniateir i'r Aelod o'r Bwrdd gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i fynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol. Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, lle bo hynny'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Ymddiriedolaeth.

Hyd y penodiad

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod y Cyfarwyddwr Anweithredol yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall unigolyn fod yn aelod o'r Bwrdd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd

Penodir yr aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Bydd unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r penodiad os bydd:-

a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr
c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
e. yn weithiwr cyflogedig mewn Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Ymddiriedolaeth y GIG wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cyfarwyddwr Anweithredol o'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Os cânt eu penodi, bydd angen i Gyfarwyddwyr Anweithredol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Gyfarwyddwyr Anweithredol gadw at safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cefndir

Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi esblygu, dros y ddau ddegawd diwethaf, i fod yn un o'r gwasanaethau ambiwlans mwyaf datblygedig yn glinigol yn y byd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu dros dair miliwn o bobl yng Nghymru, ac yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ystod amrywiol o gymunedau ar draws ardal o ryw 8,000 milltir sgwâr.
Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i 2000 o alwadau brys bob dydd, ac yn ychwanegol at ddefnyddio'r ambiwlans argyfwng traddodiadol neu gerbyd ymateb cyflym, mae'n gallu cynnig cyngor yn fwyfwy dros y ffôn neu driniaeth yn y lleoliad neu yn y cartref. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd dimau sy'n gallu ymateb i ddigwyddiadau mwy cymhleth neu ddigwyddiadau mawr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i 2000 o alwadau brys bob dydd, ac yn ychwanegol at ddefnyddio'r ambiwlans argyfwng traddodiadol neu gerbyd ymateb cyflym, mae'n gallu cynnig cyngor yn fwyfwy dros y ffôn neu driniaeth yn y lleoliad neu yn y cartref. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dimau hefyd sy'n gallu ymateb i ddigwyddiadau mwy cymhleth neu ddigwyddiadau mawr.

Mae eu staff trin galwadau a staff y canolfannau cyswllt clinigol ar waith 24/7 a 365 diwrnod y flwyddyn. Ac mae'r Ymddiriedolaeth ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau, gan sicrhau bod cleifion yn cael y cyngor a'r cymorth iawn gan y bobl iawn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi dros 3,200 o staff, yn gweithredu fflyd o dros 700 o gerbydau mewn dros 100 o safleoedd ledled Cymru ac yn cael cymorth gan dros 1500 o wirfoddolwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth ar flaen y gad o ran arloesi ym maes gofal clinigol heb ei gynllunio ac yn gynyddol mae'n darparu cyngor, cefnogaeth a chyfeirio at y ddarpariaeth gywir trwy ei gwasanaethau “clywed a thrin” sy'n cynnwys Galw Iechyd Cymru a'i olynydd - sef gwasanaeth 111. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn mynd â bron hanner miliwn o gleifion y flwyddyn i le gofal trwy ei wasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys (NEPTS).

Yn 2015 gwnaeth yr Ymddiriedolaeth dreialu, a mynd ati wedyn i gyflwyno, model ymateb clinigol. Nod y model yw sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn ymateb i'r cleifion mwyaf sâl yn gyntaf ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n briodol i'w hanghenion amrywiol. Mae'n sicrhau hefyd fod y rhai ag argyfwng lle mae bywyd yn y fantol yn cael yr ymateb cyflymaf posibl.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n barhaus i wella'r hyn y mae'n ei wneud a sut. I helpu i wireddu'r uchelgais hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu penodi tri o Gyfarwyddwyr Anweithredol newydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, o gefndiroedd mor amrywiol â phosibl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn arbennig o awyddus i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar ei Bwrdd ac i ddenu aelodau o wahanol gefndiroedd ethnig.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 13 o aelodau; Wyth o Gyfarwyddwyr Anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) a phump o Gyfarwyddwyr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr). Rôl hanfodol y Bwrdd yw pennu polisi a chyfeiriad strategol, craffu ar berfformiad a'i monitro, rheoli risgiau allweddol a meithrin partneriaethau cynhyrchiol â chleifion, y cyhoedd a sefydliadau rhanddeiliad. Mae gwrando ar y bobl y mae'n eu gwasanaethu wrth wraidd yr hyn y mae'n ei wneud.

Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol, fel penodiadau cyhoeddus, yn chwarae rôl hanfodol yn llywodraethiant yr Ymddiriedolaeth, nid yn unig trwy gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ond hefyd trwy ddarparu craffu, her a sicrwydd annibynnol a dod â safbwynt cyhoeddus i'r Bwrdd. Mae'r cyfraniad y gall Cyfarwyddwyr Anweithredol ei wneud at yr Ymddiriedolaeth trwy dynnu ar eu profiadau eu hunain yn arbennig o werthfawr. Gallai hyn gynnwys y profiad o fod yn anabl, yn berson du a / neu o leiafrifoedd ethnig, o fyw mewn cymuned leol neu'r heriau sy'n cael eu hwynebu bob dydd gan ddinasyddion.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am rai sgiliau penodol ar draws y tri phenodiad. Er hynny, mae yr un mor bwysig bod aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir ganddo. Mae'r Ymddiriedolaeth felly'n awyddus i ddenu ymgeiswyr o ystod amrywiol ac eang o gefndiroedd o bob rhan o Gymru a fyddai'n ychwanegu gwerth at y Bwrdd.

Ar gyfer un o'r penodiadau, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am rywun sy'n gallu defnyddio Gwybodaeth a Sgiliau ariannol ac sy'n gallu arfer goruchwyliaeth ariannol mewn sefydliad sy'n perfformio'n dda (byddai aelodaeth o gorff cyfrifyddiaeth siartredig o fudd). Er nad ydynt yn hanfodol, mae sgiliau a phrofiad a geisir i gryfhau'r Bwrdd yn cynnwys y gweithlu ac Adnoddau Dynol a phrofiad ehangach o weithio y tu allan i'r GIG, yn enwedig os bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth neu ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae profiad blaenorol ar fwrdd yn ddymunol ond nid yn hanfodol gan y cydnabyddir bod profiadau bywyd yr un mor bwysig.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: -

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygu strategol a gwneud penderfyniadau
- Perfformiad – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad.
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich cais, hynny yw eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau y gofynnwyd i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Martin Woodford, Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Nid yw cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar y panel wedi'i gadarnhau eto. Yr Aelod Annibynnol o'r Panel fydd Emma Woollett, Cadeirydd dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe .

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau **16 Medi 2019** pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad, a fydd yn cael ei gynnal ar **3 Hydref 2019**.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf yn y datganiad personol fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf

penodedig ar gyfer y swyddi. Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rolau, gan gynnwys panel rhanddeiliad. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Cedwir mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr a gafodd eu cyf-weld, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, yn agored ac yn dryloyw ac yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Ymarfer ar gael o http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

Os ydych yn dal yn bryderus ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk